George Macleod: 1895–1991

Ffrind y di-waith

Gweledigaeth / dyfalbarhad / gofal

Ydych chi wedi bod yn yr Alban? I fod yn fwy manwl, ydych chi wedi clywed am Ynys Iona ar ochr orllewinol yr Alban neu wedi bod arni ? Bydd llawer iawn o dwristiaid yn ymweld â'r ynys hon. Bydd pobl yn dod i Iona i weddïo hefyd. Aelodau ydyn nhw o Gymuned Iona. Sefydlydd y gymuned hon oedd y Parchedig George Macleod. Yn y stori hon fe gawn dipyn o'i hanes.

Gweinidog ar eglwys yn Govan, Glasgow oedd George Macleod. Roedd ardal Govan bryd hynny yn ardal dlawd iawn, iawn. Byddai'r plant yn rhedeg ar hyd y strydoedd yn hanner noeth. Roedd bwyd yn brin. Gofynnai George Macleod iddo'i hun yn aml,

"Sut y galla i bregethu i'r bobl yma a hwythau eisiau bwyd? Sut y galla i bregethu i'r bobl yma nad oes ganddyn nhw ddim byd o gwbl?" Dyma stori un fam.

"Rydw i wedi priodi ers deuddeng mlynedd a dim ond am flwyddyn y mae fy ngŵr wedi gweithio yn ystod y cyfnod hwn. Does yna ddim cyflog yn dod i'r tŷ ac mae'n rhaid imi drwsio dillad y plant dro ar ôl tro. Mae gan yr hogyn hynaf wyth clwt ar ei drowsus. Rydw i'n dweud wrtho fo y bydd o'n gynnes yn y gaeaf! Rydw i newydd dynnu llawes oddi ar hen grys i'r gŵr a'i rhoi ar grys arall iddo fo. Pan fydd y dillad wedi mynd yn rhy garpiog i'w gwisgo mi fyddaf yn gwneud matiau rhacs efo nhw. Ond, er gwaetha'r cyfan, rwy'n dal i obeithio y caiff fy ngŵr waith yn fuan ac y bydd pethau'n gwella."

Penderfynodd George Macleod arbrofi i weld a oedd modd dysgu'r bobl i fyw bywyd llawen a llawn, i gysylltu gwaith â bywyd bob dydd. Aeth drosodd gyda nifer o ddynion eraill i ynys fechan Iona a chymryd meddiant o'r hen abaty oedd yno. Abaty Sant Columba oedd hwn – y sant a ddaeth â'r hanes am Iesu Grist drosodd o Iwerddon i'r Alban. Roedd hynny yn y flwyddyn 563 Oed Crist, a bu abaty ar Ynys Iona am ganrifoedd ar ôl hynny.

Ond bellach dim ond adfeilion oedd ar ôl. Lle bu Sant Columba yn adrodd y pader ac yn llafarganu ei weddïau doedd yno bellach

ond pentyrrau o gerrig a drain a mieri. Ac i'r lle hwn y daeth George Macleod a'i gyfeillion yn 1938 i ailadeiladu'r hen fynachlog ac i gychwyn cymdeithas yno, cymdeithas o bobl yn gweithio ac yn myfyrio.

Daeth llawer o bobl Govan yno i helpu gyda'r gwaith a daeth gobaith newydd iddyn nhw. Daeth llawer i weld pwrpas newydd i fywyd ac fe ddiflannodd y tristwch a'r anobaith. Byddai pobl Govan yn dod i'r ynys i dreulio peth amser ac yna'n dychwelyd adref at eu teuluoedd. Byddai'r cyfnod ar Ynys Iona yn rhoi ysbrydoliaeth newydd iddyn nhw ac yn dangos iddyn nhw fod bywyd yn werth ei fyw.

"Wedi eu gollwng aeth i fyny'r mynydd o'r neilltu i weddïo, a phan aeth hi'n hwyr yr oedd yno ar ei ben ei hun." Mathew 14:23

Helpa ni, Arglwydd,
i beidio gwastraffu amser.
Tueddu i ruthro o gwmpas
ydyn ni i gyd.
Rhuthro o'r naill le i'r llall,
yn gwneud hyn ac arall.
Dysga ni i ymdawelu
ac i chwilio am le
distaw fel Ynys Iona.
Ond does dim rhaid i'r
lle hwnnw fod yn bell.
Helpa ni i dawelu,
i aros yn ddistaw,
i feddwl,
i werthfawrogi
ac i weddïo.
Amen.

Gall unrhyw le fod yn lle "arbennig".
Meddyliwch am y lleoedd sy'n "arbennig" i chi.
Pam maen nhw'n lleoedd "arbennig"?

George Macleod: 1895–1991